



IICSA INDEPENDENT INQUIRY INTO CHILD SEXUAL ABUSE

YMCHWILIAD ANNIBYNNOL I GAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL

FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Sefydlwyd yr Ymchwiliad i ymchwilio i fethiannau'r gorffennol a'r presennol gan sefydliadau i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol
- Mae'r Ymchwiliad yn edrych i mewn i gamdriniaeth rywiol o blant a ddigwyddodd naill ai mewn sefyllfa sefydliadol – ble daeth y dioddefwr a goroeswr i gysylltiad â'u camdriniwr mewn sefydliad yn gyntaf – neu ble hysbyswyd y gamdriniaeth i rywun mewn awdurdod ond na weithredwyd arni yn briodol
- Mae'n annibynnol ar y Llywodraeth
- Mae ei ymchwiliadau yn cwmpasu sefydliadau yng Nghymru a Lloegr
- Bydd yn caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr rannu eu profiadau yn breifat ac yn gyfrinachol
- Bydd yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ac yn gwneud argymhellion ymarferol i ddiogelu cenedlaethau o blant yn y presennol a'r dyfodol
- Mae ei waith yn canolbwyntio ar wneud newidiadau mawr ar draws sefydliadau a fydd yn cael effaith parhaol

Beth yw'r Ymchwiliad?

Mae'r Ymchwiliad yn ymchwilio i fethiannau'r gorffennol a'r presennol gan sefydliadau i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol, i ddal y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif, ac i wneud argymhellion i ddiogelu cenedlaethau o blant yn y dyfodol.

Pam y sefydlwyd yr Ymchwiliad?

Fe wnaeth yr Arolwg Trosedd yng Nghymru a Lloegr (2015/16) ganfod bod un o bob pedwar ar ddeg (7%) o oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi hysbysu eu bod wedi bod yn ddioddefwr a goroeswr o gamdriniaeth rywiol o blant. Mae'n debygol bod llawer mwy o achlysuron sy'n mynd heb eu hysbysu a heb eu cyfrif. Sefydlwyd yr Ymchwiliad er mwyn datgelu ac unioni methiannau sydd wedi peri i hyn ddigwydd.

Beth sydd o fewn cwmpas yr Ymchwiliad?

Yr Ymchwiliad hwn yw'r Ymchwiliad cyhoeddus mwyaf uchelgeisiol erioed a sefydlwyd yn y DU. Ei ddiben yw ystyried i ba raddau y mae pob sefydliad yn Lloegr a Chymru wedi methu yn eu dyletswydd o ofal i amddiffyn plant rhag cam-drin ac ecsbloetio rhywiol, a pha gamau y gallent eu cymryd i atal y cam-drin hwnnw yn y dyfodol. Nid oes ganddo unrhyw ddyddiad cau, ac yn y dasg hon gellir gwneud ymholiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd sawl blwyddyn neu hyd yn oed degawdau yn ôl. Nid yw o fewn pŵer yr Ymchwiliad i ddedfrydu pobl am dramgwyddau troseddol, penderfynu ar gwestiynau o atebolrwydd sifil na dyfarnu iawndal.

Sut mae'r Ymchwiliad wedi'i drefnu?

Arweinir yr Ymchwiliad gan Gadeirydd a Phanel o dri. Fe'i cefnogir gan Banel Ymgynghorol o Ddiodefwyr a Goroeswyr. Sefydlwyd Swyddfeydd i'r Ymchwiliad ledled Cymru a Lloegr.

Sut mae'r Ymchwiliad yn gweithio?

Rennir gwaith yr Ymchwiliad yn dri phrosiect craidd:

- **Y Prosiect Ymchwil:** cyhoeddi ymchwil wreiddiol ar gam-drin plant yn rhywiol a dadansoddi gwybodaeth mae'r Ymchwiliad yn ei derbyn gan ddioddefwyr a goroeswyr
- **Y Prosiect Gwrandawiaidau Cyhoeddus:** nodi ac archwilio tystiolaeth o fethiannau sefydliadol
- **Y Prosiect Gwirionedd:** galluogi diodefwyr a goroeswyr i rannu eu profiad

Bydd y dystiolaeth a geir yn y tri phrosiect yn llywio casgliadau ac argymhellion cyffredinol yr Ymchwiliad.

Ceir pedair elfen thematig sy'n ffocws i'n gwaith a'n hargymhellion:

- **Diwylliannol:** archwilio'r agweddau, ymddygiadau a gwerthoedd o fewn sefydliadau sy'n ein hatal rhag atal cam-drin plant yn rhywiol
- **Strwythurol:** edrych ar y fframweithiau deddfwriaethol, llywodraethu a sefydliadol o fewn a rhwng sefydliadau
- **Ariannol:** ystyried y trefniadau ariannol, cyllido ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau perthnasol
- **Proffesiynol a gwleidyddol:** canolbwyntio ar y materion arweinyddiaeth, proffesiynol ac arfer ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliadau perthnasol

Faint o amser fydd yr Ymchwiliad yn ei gymryd?

Mae'r Ymchwiliad wedi ymrwmo i gyflenwi canlyniad o fewn amserlen gredadwy ac yn disgwyl y bydd wedi gwneud cynnydd sylweddol erbyn 2020. Cyhoeddir adroddiadau interim a fydd yn cynnwys argymhellion gweladwy a chyraeddadwy.

Sut all pobl helpu'r Ymchwiliad?

Gall unrhyw un a oedd wedi'i gam-drin yn rhywiol fel plentyn lle y bu methiant sefydliadol gyflwyno eu datganiadau mewn amgylchedd diogel, preifat, cyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un a ddywedodd am eu cam-drin rhywiol wrth berson mewn awdurdod, lle na weithredwyd ar yr adroddiad yn briodol. Os ydych yn ddioddefwr neu'n ooeswr, neu os gallwch fod o gymorth i'r Ymchwiliad, cysylltwch â ni.

Cysylltu â ni

- Defnyddio ein ffurflen ar-lein: www.iicsa.org.uk
- Ffonio ein llinell Wybodaeth: **0800 917 1000**
- E-bostio ni: contact@iicsa.org.uk
- Ysgrifennu atom: **Freeport HEAD OFFICE** (nid yw manylion eraill ynghylch y cyfeiriad yn ofynnol)

Diogelir yr holl wybodaeth bersonol a sensitif yn briodol.